**CYNGOR**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13:00 ar 15 MAI 2026, yng Nghanolfan Ddeialog, y Ganolfan Ddelweddu.**

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Meri Huws, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); Rhuanedd Richards, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Dr Paul Bevan; Yr Athro Sarah Davies; Kate Eden; Millie Hackett, Llywydd Undeb Aber; Yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); Dr Aloysius Igboekwu; Yusuf Ibrahim; Nanw Maelor Hampson, Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA; Dan Richards; Arwel Thomas; Yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; Claire Vaughan. |
| Yn gweinyddu: | Julie Archer, Pennaeth Llywodraethu (cofnodion); Simon Crick, Prif Swyddog Ariannol; Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Alice Leroy, Undeb Aber; Gwenno Roberts, Undeb Aber; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg; Steve Thomas, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Allanol. |

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Kylie Evans, Mark Tweed, a Jane Usherwood.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 09/07/2026

**52. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD**

NODWYD

1. Croesawodd y Cadeirydd swyddogion Undeb Aber, Gwenno Roberts ac Alice Leroy, oedd yn cysgodi aelodau myfyrwyr y cyfarfod hwn.

2. Llongyfarchiadau i'r rhai a drefnodd y Llys, oedd yn ddigwyddiad llwyddiannus gyda phresenoldeb da.

3. Llongyfarchodd y Cadeirydd yr Athro Sarah Davies a'r Athro Peter Merriman sydd wedi eu hethol yn Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

4. Llongyfarchodd y Cadeirydd Huw Roberts, Uwch Reolwr Llety'r Brifysgol, sydd wedi cael ei anrhydeddu â Gwisg Las Gorsedd Cymru. Dyfernir Gwisgoedd Glas i gydnabod cyfraniadau ac ymroddiad unigolyn i Gymru, yr iaith a'u hardal leol.

5. Llongyfarchodd y Cadeirydd yr Is-Ganghellor ar gwblhau arholiad Cymraeg Ail Iaith (Mynediad) yn llwyddiannus.

6. Llongyfarchwyd Elfyn Llwyd, y Dirprwy Ganghellor, ar ei benodiad fel Darpar Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru.

7. Gofynnwyd i'r aelodau gwblhau arolygon effeithiolrwydd y pwyllgor a fyddai'n cael eu dosbarthu yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar y 25ain o Fai, a byddai angen eu dychwelyd erbyn y 12fed o Fehefin.

**53. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

NODWYD

1. Nodwyd y bydd y ddau aelod fydd yn cael eu hailbenodi am ail dymor yn gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth ar yr eitem honno.

**54. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2026 (COU2526 -079) a newid i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2025 (COU2526 -080).

NODWYD

1. Nodwyd bod Rhuanedd Richards yn bresennol yn y cyfarfod ar 23 Mawrth ond ei bod wedi ei gadael oddi ar restr y mynychwyr. [**CAM GWEITHREDU**: Pennaeth Llywodraethu i gywiro'r rhestr mynychwyr.]

2. Mae'r ail set o gofnodion, o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2025, yn cynnwys geiriad gwahanol ar gyfer un eitem, [redacted] FOIA s43(2) Ni wnaed unrhyw newidiadau i benderfyniad gwreiddiol y Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2026 fel cofnod cywir.

4. Cymeradwywyd y geiriad diwygiedig ar gyfer cofnod 24.4 o gyfarfod 24 Tachwedd 2025.

**55. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Julie Archer, Pennaeth Llywodraethu (COU2526 -081).

NODWYD

1. 67.1.6 a 67.1.11 Adolygiad o Ddogfennau Llywodraethol - Mae Shakespeare Martineau wedi bod yn cynorthwyo gyda'r adolygiad o'r dogfennau llywodraethu, sy'n broses hir sy'n dal i fynd rhagddi.

2. 39.4 Cofnodion y cyfarfod blaenorol - Mae cyfarfod ychwanegol ar yr agenda.

3. 43.17 Adolygiad o argymhellion yr adroddiad archwilio mewnol - Nid yw'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) wedi cwrdd eto, felly caiff hyn ei ystyried ym mis Mehefin.

4. 36 protocol rhannu gwybodaeth AUPAS - Ni fu cytundeb gydag ymddiriedolwyr AUPAS hyd yn hyn. Y bwriad yw dod â hyn gerbron y Cyngor ym mis Gorffennaf.

**56. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Rhodri Gravell, Cydlynydd Llywodraethu (Llywodraethu a Risg) (COU2526 -082) lle mae materion wedi'u cymeradwyo drwy weithred y Cadeirydd.

NODWYD

Cymeradwywyd gan y Cyngor 06/07/2026

1. Roedd y penderfyniadau a wnaed rhwng cyfarfodydd yn ymwneud â defnyddio Sêl y Brifysgol a byddant yn cael eu cynnwys o dan eitem 11.6 ar yr agenda.

## 57. GOHEBIAETH

1. <u>Gweithred Dileu Ymddiriedolwr AUPAS</u>

DERBYNIWYD

Gweithred Dileu Ymddiriedolwr Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (COU2526 -083).

NODWYD

1. Mae'r ddogfen yn ymwneud ag ymddiriedolwr Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth, George Ashworth, y mae ei dymor yn y swydd yn dod i ben. Rhaid selio'r ddogfen gan ei bod yn weithred.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd dileu'r ymddiriedolwr a defnyddio'r sêl.

## 58. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor (COU2526 -084), yn cynnwys tair adran allweddol: adroddiad ar y prif bwyntiau; adroddiad cynllunio yn ymwneud â recriwtio myfyrwyr; ac adroddiad cyfathrebu.

NODWYD

1. Diolchodd yr Is-Ganghellor i'r aelodau oedd yn gallu bod yn bresennol yn y llys.

2. Yn dilyn yr etholiad diweddar, mae ymgysylltiad eisoes yn digwydd ar ran y Brifysgol ac fel rhan o Brifysgolion Cymru. Mae'r llywodraeth newydd wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o addysg uwch yn ei chan niwrnod cyntaf, ac mae trafodaethau'n parhau er mwyn sicrhau y bydd prifysgolion yn cyfrannu'n sylweddol at yr adolygiad. Nodwyd bod y camau sy'n agored i Lywodraeth Cymru o ran cyllid yn gyfyngedig gan eu bod yn gweithredu o fewn fframwaith San Steffan. Tynnodd yr Aelodau sylw at rôl staff Aberystwyth yn ystod yr etholiad a chroesawyd cyfraniad Anwen Elias, yr ystyriwyd ei bod yn ganolog i'r drafodaeth wleidyddol.

3. Holodd yr Aelodau sut y gall y Brifysgol ymgysylltu'n effeithiol â'r aelodau newydd, gan nodi bod chwech yn etholaeth y Brifysgol. Nodwyd bod Elin Jones (un o aelodau Ceredigion Penfro) wedi ei henwi yn y cabinet a bod Kerry Ferguson, Cynghorydd Tref Aberystwyth, wedi ei henwi'n Ddirprwy Lywydd. Pwysleisiodd aelodau'r pwyllgor ei bod yn bwysig peidio â chyfyngu'r ymgysylltiad â'r etholaeth hon yn unig. Nododd yr Aelodau eu swyddogaeth eu hunain o ran ymgysylltiad allanol a gofyn am negeseuon allweddol i'w defnyddio i sicrhau cysondeb, gan gynnwys pwysigrwydd yr Hen Goleg i'r dref a'r rhanbarth. [**CAM GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol]

4. Mae'r Is-Ganghellor yn bwriadu adolygu strwythur ei adroddiad yn y dyfodol. Pwysleisiodd yr Aelodau werth elfennau ymchwil yr adroddiad a gofyn am friff yn y dyfodol gan staff

Cymeradwywyd gan y Cyngor 06/07/2026

academaidd ar y gwaith ymchwil cadarnhaol sy'n digwydd yn y Brifysgol [**CAM GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol].

**PENDERFYNWYD**

5. Nododd yr aelodau'r adroddiad.

## 59. ADRODDIAD GAN UNDEB ABER

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Millie Hackett, Llywydd Undeb Aber, Nanw Maelor Hampson, Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA, a Trish McGrath, Prif Swyddog Gweithredol Undeb Aber (COU2526 -085)

NODWYD

1. Cynigiodd yr aelodau eu llongyfarchiadau i Undeb Aber ar eu gwobr fel Undeb Myfyrwyr y Flwyddyn yn nigwyddiad dathlu NUS Cymru.
2. Diolchodd y Llywydd i'w swyddogion am yr ymgyrchoedd a gynhaliwyd trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cael gwared ar y cap a'r ffioedd ailsefyll, gweithdai gwallt â gwead, ac ymgysylltiad Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.
3. Eleni, mae 63% o fyfyrwyr Aber wedi ymgysylltu â'r Undeb trwy ddemocratiaeth, gwirfoddoli, cyngor, clybiau neu gymdeithasau neu drwy fod yn Gynrychiolydd Academaidd, gan adlewyrchu cynnydd o 60% yn 2024-25.
4. Adroddodd UMCA fod Wythnos RAG newydd ddigwydd, a chodwyd £2,400 ar gyfer elusennau Diabetes UK a Mind. Mae is-ddeddf UMCA bellach ar waith ac ar wefan yr Undeb. Mae'r is-ddeddf yn amlinellu'r sail ar gyfer datblygu perthynas sydd yr un mor fuddiol i UMCA ac Undeb Aber, gan gynnig prosesau teg a chadarn i UMCA a'i haelodau.
5. Nododd swyddogion yr Undeb mai hwn oedd eu cyfarfod diwethaf a diolchasant i'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

6. Nododd yr Aelodau'r adroddiad a dymunwyd yn dda i'r ddau swyddog ar gyfer y dyfodol.

## 60. MATERION ARIANNOL

1. <u>Diweddariad ar y Cyfrifon Rheoli</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dallas Baker, Pennaeth Interim Rheolaeth Ariannol ac Adrodd, a Stephen Harrison, Pennaeth Gweithrediadau a Chydymffurfiaeth Ariannol (COU2526 -086), yn nodi perfformiad ariannol y Brifysgol fel ag yr oedd ym Mis 7, 2025-26.

NODWYD

1. FOIA s43(2) [redacted]

Cymeradwywyd gan y Cyngor 06/07/2026

[redacted]

2. [redacted] Mae pwysau ar gyfraniadau ymchwil, gyda swyddogion yn nodi bod perfformiad yn tueddu i wella wrth i incwm grant gael ei dderbyn ond nid oes disgwyl i hynny newid yn sylweddol eleni.

3. Cadarnhaodd y swyddogion fod materion tymor byr yn cael sylw, er enghraifft nid yw'r ffordd y mae'r Brifysgol yn defnyddio'r ystâd wedi newid eto mewn ymateb i'r gwaith gweddnewid arall.

4. Nodwyd fod trafodaeth dda wedi digwydd yn y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, oedd yn nodi, er ei bod yn siomedig gweld y llithriad, bod y mesurau tymor byr wedi rhoi sicrwydd.

5. Nododd y swyddogion mai amseru oedd yn gyfrifol am y problemau llif arian. Enghraifft o hyn yw gwerthiant Llanbadarn, sy'n dal ar y gweill ond fydd yn cael ei ohirio.

6. Bu'r Aelodau'n craffu ar gostau penodiadau dros dro. Cadarnhaodd y swyddogion fod y Brifysgol eisoes wedi ymbellhau oddi wrth y dull hwnnw i raddau helaeth. Aeth yr Aelodau ymlaen i holi sut y gellir pwysleisio'r neges ynghylch bod yn ochelgar. Nododd y swyddogion y risg o fod yn rhy agored gyda'r staff ynglŷn â'r sefyllfa ariannol. Y nod yw cael mwy o sgyrsiau wedi'u targedu gyda'r adrannau lle gellir gwario llai rhwng hyn a diwedd mis Gorffennaf.

7. Gofynnodd yr aelodau am sicrwydd ynghylch risgiau cysylltiedig â gwerthu Llanbadarn. Cadarnhaodd y swyddogion bod hyn yn ymwneud ag amseru ac egluro nad oes unrhyw wariant yn erbyn y dderbynneb honno. Codwyd cwestiwn pellach ynghylch effaith unrhyw oedi gan fod y gwerthiant wedi ei gynnwys yng nghynllun cyllido'r flwyddyn nesaf. Cadarnhaodd y swyddogion nad oes unrhyw effaith ar ofynion gweithredol. Bydd angen ail-ragolwg ar gyfer y flwyddyn nesaf yn seiliedig ar ba bryd y derbynnir yr arian hwnnw.

**PENDERFYNWYD**

8. Nododd yr aelodau'r adroddiad.

2. <u>Adroddiad Recriwtio a Chofrestru</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Helen Eustace, Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol (COU2526 -087), yn darparu diweddariad recriwtio a chofrestru ar gyfer Ebrill 2026.

NODWYD

1. [redacted] Nodwyd bod dyddiad ystyriaeth gyfartal UCAS wedi newid, yn ogystal â'r dyddiadau cau ar gyfer gwrthod yn ddiofyn. [redacted]

Cymeradwywyd gan y Cyngor 06/07/2026

2. Yn ddiweddar, cyhoeddodd UCAS adroddiad ar y broses Glirio yn tynnu sylw at newid yn ymddygiad myfyrwyr, sy'n dangos bod 92% o ymgeiswyr wedi edrych ar opsiynau darparwyr cyn y diwrnod canlyniadau, a bod 64% wedi ymchwilio i'r sefydliad addysg uwch y cawsant le ynddo. Gofynnodd yr aelodau a yw'r Brifysgol felly'n bwriadu newid ei hymddygiad yn y broses Glirio. Dywedodd y swyddogion ei bod yn anodd adnabod y gynulleidfa hon ond efallai y bydd cyfle i gyhoeddi cynnwys nad yw wedi ei gyfeirio at unigolion penodol.

3. Nodwyd ei bod yn anodd rhagweld niferoedd yr ôl-raddedigion rhyngwladol a addysgir o flwyddyn i flwyddyn. [redacted] FOIA s43(2)

4. Nododd yr Aelodau fod y Brifysgol yn anelu at darged realistig yn ei strategaeth, ond ei bod yn ddefnyddiol cael trafodaethau ynghylch symud oddi wrth y ffigur o 10,000. Nododd y swyddogion fod cyfansoddiad y myfyrwyr yn ei gyfanrwydd yn bwysicach na'r ffigur pennawd o 10,000. Mae modelu ariannol presennol yn edrych ar gostau rhai mathau o fyfyrwyr, a fydd yn llywio'r targedau recriwtio.

5. Nododd yr Aelodau bwysigrwydd distyllu'r naratif ar gyfer gwahanol grwpiau, megis staff a rhanddeiliaid allanol, er mwyn sicrhau bod y negeseuon priodol yn cyrraedd pawb. Nododd yr Aelodau hefyd bwysigrwydd rhannu taflwybr yr hyn sy'n digwydd os na wneir newidiadau. Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd cyfleu'r ymdrech o gynnal profiad myfyrwyr preswyl traddodiadol, o ystyried symudiad ymgeiswyr tuag at astudio gartref.

6. Gofynnodd yr Aelodau a oes ymdeimlad o gyfrifoldeb personol ymysg arweinwyr yr adrannau hynny sy'n tanberfformio. Nododd y swyddogion ei fod yn newidiol. Nododd yr Aelodau bwysigrwydd addysgu staff ynghylch cynulleidfaoedd, cymwysterau ac elfennau recriwtio eraill allweddol.

**PENDERFYNWYD**

7. Nododd yr aelodau'r adroddiad.

3. <u>Cyfarpar Prif Bibellau Nwy a'r Cytundeb Hawl Tramwy Cysylltiedig</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Tim Macy, Rheolwr Cynllunio Gofod, a Simon Edwards, Rheolwr Cydymffurfiaeth (COU2526 -088).

NODWYD

1. Mae'r cynnig yn gyfle risg isel i gynhyrchu incwm sydd hefyd yn cefnogi gwydnwch seilwaith hanfodol sy'n gwasanaethu'r Brifysgol a'r gymuned ehangach.

**PENDERFYNWYD**

2. Yn amodol ar drafod telerau masnachol priodol a mesurau diogelu cyfreithiol cadarn, cymeradwyodd yr aelodau'r cynnig mewn egwyddor a rhoi'r awdurdod i'r swyddogion fwrw ymlaen â thrafodaethau manwl ynghylch contractio, gan gynnwys cymhwyso Sêl y Brifysgol maes o law.

4. <u>Dileu Godre'r Glais</u>

DERBYNIWYD

Cymeradwywyd gan y Cyngor 08/07/2025

Adroddiad gan Dr Tim Macy, Rheolwr Cynllunio Gofod (COU2526 -089),

NODWYD

1. Mae'r eiddo wedi'i ddatgan yn eiddo dros ben i ofynion gweithredol. Mae'r eiddo mewn cyflwr gwael ac nid oes llawer o ddiddordeb wedi bod ynddo. Mae ei werth ar y farchnad yn is na'r disgwyl ac felly mae'r cynnig presennol yn dderbyniol.

2. Ystyriwyd y gwarediad arfaethedig gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, gan gynnwys trafodaeth fanwl ynghylch gwybodaeth am y farchnad a diwydrwydd dyladwy. Roedd y pwyllgor yn gyfforddus ac yn fodlon ei argymell ar gyfer cymeradwyaeth y Cyngor ac roedd hefyd yn fodlon bod y gwerthiant yn cyd-fynd â gofynion y Comisiwn Elusennau.

**PENDERFYNWYD**

3. Cytunodd yr Aelodau i dderbyn y cynnig FOIA s43(2) [redacted], yn amodol ar y contract, ac i fwrw ymlaen â gwaredu, trafodaethau contract, a chymhwyso Sêl y Brifysgol maes o law.

**61. YR HEN GOLEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr), a Jim O'Rourke (Rheolwr Prosiect) (COU2526 -090) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith adeiladu.

NODWYD

1. Ystyriwyd y papur gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, a chafwyd diweddariadau ers hynny. Cynhaliwyd ymweliad diwrnod llawn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF) ddiwedd mis Ebrill. Nododd y Swyddogion, er na wnaed unrhyw geisiadau am wybodaeth ar y diwrnod, gwnaed penderfyniad i fynd i'r afael â materion sy'n codi o'r drafodaeth ac i ddarparu gwybodaeth yn rhagweithiol.

2. FOIA s43(2) [redacted]

3. Nodwyd dyddiadau cwblhau allweddol ym mis Mai; ac mae'r gweithgaredd hwnnw ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau erbyn y dyddiad a osodwyd ar gyfer cwblhau De Seddon gan WEFO.

4. Yn ôl y disgwyl, cadarnhawyd £700k o gyllid ychwanegol, gan ddod â chyfraniad ariannol Llywodraeth Cymru i gyfanswm o £4.5m.

5. FOIA s43(2) [redacted]

Cymeradwywyd gan y Cyngor 06/07/2026

6. Mae'r diweddariad gan y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau (DARO) yn nodi grant o £499k gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a sicrhawyd gan sefydliad partner, Area 43. Bydd rhan ohono'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgaredd yn yr Hen Goleg.

7. Llofnodwyd Penawdau'r Telerau gyda [redacted] ym mis Ebrill ac mae'r trafodaethau'n parhau ynghylch cynlluniau'r ceginau a'r ystafelloedd gwely i sicrhau'r incwm lletygarwch mwyaf posib.

8. [redacted]

9. Holodd yr aelodau a allai nawdd corfforaethol fod yn adnodd y gellid ei defnyddio, a chadarnhaodd y swyddogion fod hyn yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried.

10. Nododd yr Aelodau eu bod yn gwerthfawrogi lefel y manylder a'r eglurder yn yr adroddiadau hyn.

11. Gofynnodd yr aelodau pa risgiau eraill sydd wedi eu canfod. Nododd y swyddogion fod yr awdurdod tân wedi bod yn heriol, ond teimlwyd bod y risgiau cysylltiedig â chynllunio a thân yn lleihau yn hytrach na chynyddu.

**PENDERFYNWYD**

12. Nododd yr aelodau'r adroddiad.

## 62. MATERION LLYWODRAETHU

1.1 <u>Penodi Aelodau Cyngor newydd</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2526 -091) mewn dwy ran: recriwtio aelodau newydd o'r Cyngor ac aelodau cyfetholedig, ac ailbenodi aelodau am ail dymor.

NODWYD

1. Nododd y swyddogion fod y papur yn amlinellu'r broses recriwtio ac yn cyd-fynd ag adroddiad dienw ar Degwch, Amrywioldeb a Chynhwysiant a ddarparwyd gan Odgers yn dilyn eu chwiliad estynedig.

2. Roedd panel y Pwyllgor Enwebiadau yn unfrydol yn eu hargymhelliad bod Alan Speight yn cael ei benodi yn aelod o'r Cyngor o 1 Mehefin 2026 tan 31 Gorffennaf 2030.

3. Tynnodd y swyddogion sylw at y rhestr fer gref iawn a nodwyd argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau y dylid cael pedwar aelod cyfetholedig newydd, yn gwasanaethu'r Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant, y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Ac eithrio Geraint Jones, mae

Cymeradwywyd gan y Cyngor 06/07/2025

pob aelod ar gael i ddechrau ar 1 Mehefin. Nododd y swyddogion fod cyfnod Nicola Wood fel aelod cyfetholedig yn dod i ben ar 1 Mehefin.

4. Dywedodd y swyddogion fod y Brifysgol wedi herio Odgers gan nad oedd yr amrywioldeb mor gryf ag y gallai fod. Nododd yr Aelodau eu gwerthfawrogiad bod y Brifysgol wedi mynegi pryder am hyn ac roeddent yn holi a ddysgwyd unrhyw wersi. Nodwyd bod y penderfyniad i ehangu'r maes chwilio yn un cadarnhaol ac y bydd yn cael ei ystyried mewn ymarferion recriwtio yn y dyfodol.

5. Holodd yr Aelodau a oedd unrhyw fylchau sgiliau yn bodoli o hyd ar ôl y penodiadau hyn. Nododd y swyddogion y bydd angen i'r aelodau newydd gwblhau'r matricsau sgiliau, ac y bydd y darlun yn fwy eglur ar ôl hynny. Nodwyd yn ogystal fod y sgiliau sydd eu hangen yn newid hefyd.

**PENDERFYNWYD**

6. Cymeradwyodd yr Aelodau'r argymhelliad y dylid penodi Alan Speight i'r Cyngor rhwng 1 Mehefin 2026 a 31 Gorffennaf 2030.

7. Cymeradwyodd yr Aelodau'r argymhelliad y dylid penodi Fran Button, Daniel Hilbourne, Mo Hussain, a Geraint Jones yn aelodau cyfetholedig o bwyllgorau rhwng 1 Mehefin 2026 a 31 Gorffennaf 2030.

Gadawodd Arwel Thomas a Claire Vaughan y cyfarfod (nododd y swyddogion fod eu habsenoldeb yn golygu nad oes cworwm yn y cyfarfod, felly ceisir barn aelodau annibynnol absennol trwy ohebiaeth).

1.2 Ailbenodiadau ar gyfer ail gyfnodau

NODWYD

1.2.1 Roedd y sgyrsiau ar ôl cyfweliadau'r aelodau newydd yn canolbwyntio ar yr holl newid yn ystod y 12-24 mis nesaf, gyda chyfnodau aelodau eraill yn dod i ben. Mae'r ddau aelod y mae eu cyfnod cyntaf yn dod i ben wedi ymroi yn arw ac argymhellodd y pwyllgor eu hailbenodi.

**PENDERFYNWYD**

1.2.2 Cymeradwyodd yr Aelodau ailbenodiad Arwel Thomas a Claire Vaughan am ail gyfnod o bedair blynedd, tan 31 Gorffennaf 2030, yn amodol ar farn yr aelodau absennol.

Ymunodd Arwel a Claire â'r cyfarfod.

Gadawodd y Prif Swyddog Ariannol ac Ysgrifennydd y Brifysgol y cyfarfod.

2. <u>Clerc Adolygiad y Bwrdd</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor (COU2526 -092).

NODWYD

Cymeradwywyd gan y Cyngor 06/07/2026

1. Mae'r Is-Ganghellor wedi adolygu'r ffordd y trefnir portffolios Gweithredol er mwyn rhoi'r Brifysgol yn y sefyllfa orau i allu mynd i'r afael â'i blaenoriaethau ac edrych o'r newydd ar ei dull strategol, gyda phortffolios clir ac atebolrwydd. Mae'n allweddol bwysig bod y Prif Swyddog Ariannol yn canolbwyntio ar gyllid. Felly, mae elfennau o'u portffolio wedi eu symud i Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg, gan greu rôl newydd y Prif Swyddog Gweithredu.

2. Cynigir bod y Prif Swyddog Gweithredu yn dal gafael ar rôl Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc y Cyngor. Mae Ordinhad y Brifysgol ac Amodau Cofrestru Medr yn caniatáu i rôl y clerc gael ei chyfuno â chyfrifoldebau sylweddol ar lefel yr uwch dîm gweithredol, ar yr amod bod sylw priodol yn cael ei roi i annibyniaeth ac atebolrwydd swydd y clerc.

3. Nodwyd bod y cyfuniad o Brif Swyddog Gweithredu ac ysgrifennydd yn newydd i rai aelodau, ond amlygodd y trafodaethau nad yw hwn yn fodel anghyffredin. Cydnabu'r aelodau'r mesurau lliniaru a nodwyd yn y papur, a'u bod yn hanfodol. Dylid adolygu sefyllfa'r Clerc ymhen 12 mis.

4. Gofynnodd yr aelodau am eglurder ynghylch gwrthdaro buddiannau, gyda swyddogion yn rhoi sicrwydd y byddant yn cael eu rheoli fel ag y maent ar hyn o bryd, gan nodi bod gan ddeiliad y swydd feysydd cyfrifoldeb sylweddol yn barod ar lefel y Weithrediaeth.

**PENDERFYNWYD**

5. Nododd yr Aelodau'r newidiadau a wnaed i'r strwythur Gweithredol a'r portffolios gan yr Is-Ganghellor, gan gydnabod bod sicrwydd wedi'i geisio a'i dderbyn.

6. Mae aelodau'n fodlon cymeradwyo'r newidiadau i'r rôl sy'n effeithio ar Glerc y Bwrdd, gydag adolygiad yn cael ei gynnal ymhen 12 mis.

Ailymunodd y Prif Swyddog Ariannol ac Ysgrifennydd y Brifysgol â'r cyfarfod.

3. <u>Amodau Cofrestru Medr</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Julie Archer, Pennaeth Llywodraethu (COU2526 -093).

NODWYD

1. Mae'r adroddiad yn nodi'r dull arfaethedig o gyflwyno'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn cefnogi cais y Brifysgol i gofrestru, yn unol â gofynion Fframwaith Rheoleiddio newydd Medr.

2. Nododd y Swyddogion nad oes gofyniad system i'r Swyddog Atebol gymeradwyo'r cyflwyniad. Nodwyd hyn fel pryder, ond pwysleisiwyd bod prosesau ar waith yn fewnol i sicrhau bod y Swyddog Atebol yn cymeradwyo'r cyflwyniad.

**PENDERFYNWYD**

3. Nododd yr aelodau'r adroddiad a'r dull arfaethedig o gyflwyno cofrestriad.

4. <u>Dyddiadau Cyfarfodydd 2026-27</u>

DERBYNIWYD

Cymeradwywyd gan y Cyngor 06/07/2026

Adroddiad gan Rebecca Sweeney, Rheolwr Llywodraethu; Ffion Jones, Cydlynydd Llywodraethu (Llywodraethu Gwybodaeth); a Rhodri Gravell, Cydlynydd Llywodraethu (Llywodraethu a Risg) (COU2526 -094) yn nodi dyddiadau cyfarfodydd arfaethedig ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

NODWYD

1. Codwyd cwestiwn ynghylch cyfarfod ychwanegol ym mis Ionawr o'r materion sy'n codi. Awgrymodd y swyddogion y dylid cadw'r cyfarfod fel sesiwn friffio ar-lein gyda'r opsiwn o gynnull cyfarfod arbennig os oedd angen [**CAM GWEITHREDU**: Y tîm llywodraethu i gywiro lleoliad cyfarfod y Cyngor 29/01 i ar-lein.]

2. Mynegodd yr Aelodau bryder y bydd symud dyddiad mis Gorffennaf yn gynharach yn y mis yn effeithio ar yr aelodau myfyrwyr gan mai hon fydd eu hwythnos gyntaf yn y swydd. Nododd y swyddogion y bydd swyddogion yr Undeb yn brysur trwy gydol eu mis cyntaf, ac nad yw'n bosib i'r cyfarfod gael ei gynnal yn hwyrach yn y mis oherwydd graddio.

**PENDERFYNWYD**

3. Ystyried sesiwn ymgartrefu ar gyfer yr aelodau myfyrwyr yn ystod mis Mehefin er mwyn pontio'n hwylus i gyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf. [**CAM GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol].

4. Cymeradwyodd yr Aelodau ddyddiadau'r cyfarfodydd.

5. <u>Digwyddiadau Difrifol a adroddwyd i'r Comisiwn Elusennau</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Rhodri Gravell, Cydlynydd Llywodraethu (Llywodraethu a Risg) (COU2526 -095).

NODWYD

1. Ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau difrifol i'r Comisiwn Elusennau ers y cyfarfod diwethaf.

2. Nododd yr Aelodau gyfeiriad gwallus at CCAUC ar y daflen glawr [**CAM GWEITHREDU**: Pennaeth Llywodraethu i gywiro]

**PENDERFYNWYD**

3. Nododd yr aelodau'r adroddiad.

6. <u>Gosod y Sêl Gyffredin ar ddogfennau</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Rhodri Gravell, Cydlynydd Llywodraethu (Llywodraethu a Risg) (COU2526 -096) yn rhoi amlinelliad o'r dogfennau y mae Sêl Gyffredin y Brifysgol wedi ei gosod arnynt ers y cyfarfod diwethaf.

NODWYD

1. Cymeradwywyd yr eitemau dan sylw drwy weithred y Cadeirydd.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 06/07/2026

**PENDERFYNWYD**

2. Nododd yr aelodau'r adroddiad.

7. <u>Penodi cyfarwyddwyr is-gwmnïau</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mathew Clarke, Rheolwr Trysorlys a Chydymffurfiaeth (COU2526 -097).

NODWYD

1. Nodwyd mai'r model a argymhellwyd, yn dilyn cyngor allanol, oedd sefydlu is-gwmni, [redacted]

2. Mae tri swyddog wedi cael eu henwi fel cyfarwyddwyr cwmni yn ystod y cyfnod pontio hwn. Nodwyd bod cyfarwyddwyr y cwmni angen cymeradwyaeth y Cyngor bob amser.

3. Nododd y swyddogion y bydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant yn parhau i oruchwylio strwythur y cwmni wrth symud ymlaen.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyodd yr aelodau'r trefniadau pontio a phenodi'r unigolion a enwir yn gyfarwyddwyr cwmni.

**63. COFRESTR RISG Y BRIFYSGOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Julie Archer, Pennaeth Llywodraethu (COU2526 -098).

NODWYD

1. Cynhaliwyd trafodaeth fanwl gan y Pwyllgor Gwaith, gan gynnwys ystyried argymhellion y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

2. Gofynnodd y Swyddog Gweithredol a yw'r gofrestr yn adlewyrchu'r prif risgiau o hyd. Cafwyd trafodaeth ynghylch sut i reoli risgiau sy'n dod i'r amlwg, megis y newidiadau mewn unedau academaidd. Cytunwyd na fyddant ar y gofrestr risg, ond y bydd rhestr o faterion yn cael eu creu. Awgrymodd yr aelodau y gallai adroddiad yr Is-Ganghellor fod yn lle addas i nodi unrhyw risgiau a ddaw i'r amlwg yr ystyrir eu bod o dan drothwy'r Cyngor.

3. Gofynnodd yr aelodau am sicrwydd ynghylch y rhestr o eitemau i'w cyflawni ac a oeddent yn realistig. Nodwyd y bydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant yn treiddio'n ddwfn i risgiau cysylltiedig â phobl.

4. Holodd yr Aelodau a oes potensial ar gyfer dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau byr fel atodiad i Gofrestr Risgiau'r Brifysgol. [**CAM GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol i drafod gyda'r aelod perthnasol y tu allan i'r cyfarfod.]

5. Bu'r aelodau'n craffu ar ba mor aml y mae'r Cyngor yn ystyried Cofrestr Risgiau'r Brifysgol. Cytunwyd ei bod yn briodol ei chadw fel eitem ym mhob cyfarfod.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd gan y Cyngor 06/07/2026

6. Nododd yr aelodau'r adroddiad.

**64. ADRODDIADAU GAN IS-BWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiadau llafar gan yr is-bwyllgorau hynny sydd wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

NODWYD

1. Nododd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad fod yr holl eitemau wedi'u cynnwys mewn rhannau eraill o'r agenda.

2. Adroddodd y Pwyllgor Buddsoddiadau ei adolygiad o berfformiad y gwaddolion. Parheir i fodloni'r meincnodau, er gwaethaf dadfuddsoddi. Nid oes cyllid buddsoddi o'r strategaeth flaenorol ar ôl bellach. Trafodwyd swigen deallusrwydd artiffisial gyda'r cynghorwyr buddsoddi, a nodwyd bod y cwmnïau dan sylw yn gwmnïau sylweddol sydd hefyd yn gweithredu mewn meysydd eraill. O ganlyniad, nid yw lefel y risg yr un fath ag a welwyd yn ystod swigen dot com.

3. Adolygwyd y Polisi Buddsoddi yn unol â'r amserlen bob dwy flynedd, a chytunwyd bod y targedau presennol yn dal i fod yn briodol ac nad oes angen gosod targedau newydd. Mae camau nesaf yn cynnwys ystyried lleihau'r buddsoddiad mewn tanwydd ffosil ymhellach, a meini prawf sgrinio posib ar gyfer cwmnïau arfau a diogelwch ffiniau. Bydd y polisi drafft diwygiedig yn cael ei adolygu er mwyn ei ystyried a'i gymeradwyo ym mis Medi, ond ni ragwelir y bydd unrhyw newidiadau sylweddol o ran cyfeiriad.

4. Holodd aelodau'r Cyngor ynghylch buddsoddi effaith, a nododd yr aelodau y byddai'n ddefnyddiol cael dull ystyriol o weithredu ar newidiadau i'r portffolio.

**PENDERFYNWYD**

5. Nododd yr aelodau'r adroddiad.

**51. UNRHYW FATERION ERAILL, ADOLYGIAD CYFARFOD A MATERION I'R DYFODOL**

NODWYD

1. Diolchwyd i'r swyddogion am ansawdd yr adroddiadau a'r cyflwyniadau.

2. Diolchwyd i'r aelodau myfyrwyr, Millie a Nanw am eu cyfraniad gweithredol i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.

3. Diolchodd yr Is-Ganghellor ar ran y Pwyllgor Gwaith i'r Cyngor am eu cefnogaeth ac am herio'n adeiladol.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:50.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 6 Gorffennaf 2026

Cymeradwywyd gan y Cyngor 06/07/2026